# Cylchlythyr / Newsletter

**Tymor yr Hydref (Hanner Tymor 1) 2023** | Autumn Term (Half Term 1) 2023




## Neges Gan y Pennaeth / Message From the Headteacher

**Am ddechrau gwych i'r flwyddyn academaidd newydd! Gallaf eich sicrhau bod ein plant wedi ymgartrefu'n dda iawn yn eu dosbarthiadau newydd ac yn mwynhau popeth sydd gan y staff i'w gynnig yn fawr. Mae wedi bod yn bleser cerdded o gwmpas yr ysgol ac arsylwi dysgu ac addysgu mor wych.**
**Rwyf hefyd yn falch iawn o rannu gyda chi fod ein dosbarth trochi, Canolfan Gwenllian, ar agor yn swyddogol. Ar ddydd Gwener y 27ain o Hydref ymwelodd llawer o bwysigion o Lywodraeth Cymru a'r Awdurdod Lleol i agor y cyfleuster gwych hwn yn swyddogol. Braint hefyd oedd cael seren Radio Cymru, Rhydian Bowen-Phillips, i rannu manteision bod yn ddwyieithog. Ond i mi, uchafbwynt y diwrnod oedd ein côr yn canu 'Law yn Llaw', cân a ysgrifennwyd ac a gyfansoddwyd gan ein Dirprwy Bennaeth dawnus iawn, Mr Perry-Hopton. Roedd yn ddiwrnod i'w gofio!**

**Am ddechrau i'r flwyddyn!**
**Mwynhewch hanner tymor!**

*What a fantastic start to the new academic year. I can assure you that our children have settled in very well to their new classes and are thoroughly enjoying everything the staff have to offer. It has been a pleasure walking around the school and observing such fantastic teaching and learning.*
*I'm also very proud to share with you that our immersion class, Canolfan Gwenllian, is officially open. On Friday the 27th of October many dignitaries from Welsh Government and the Local Authority visited to officially open this wonderful facility. It was also a privilege to have Radio Cymru star, Rhydian Bowen-Phillips, share the benefits of being bi-lingual. But for me, the highlight of the day was our choir singing 'Law yn Llaw', a song written and composed by our very talented Deputy Headteacher, Mr Perry-Hopton. It was a day to remember!*

*What a great start to the year!*
*Please have a very happy half term!*

# Newyddion
# Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod



CYMRU FYW

Hafan | Cylchgrawn | Gwleidyddiaeth | Gog-Orll | Gog-Ddwy | Canolbarth | De-Orll | De-Ddwy | Wales News

De-Ddwyrain

## Balchder wrth agor canolfan drochi ddiweddaraf Cymru

13 awr yn ôl

Cip ar ganolfan drochi newydd Sir Caerffili

## Canolfan Gwenllian

**Rydym fel ysgol yn falch iawn o gyhoeddi agoriad swyddogol Uned Drochi Cymraeg newydd sbon Caerffili ar safle ein hysgol. Bydd Canolfan Gwenllian yn fodd i drochi hwyrddyfodiaid i addysg Gymraeg yn yr iaith, gyda'r bwriad o'u hintegreiddio'n llawn mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn y pen draw. Mae'r adnodd hefyd yn hwb enfawr i ni fel ysgol gan y byddwn yn gwneud defnydd ohono i ddarparu cefnogaeth ddwys i ddisgyblion sydd angen ychydig o gefnogaeth gyda datblygiad eu Cymraeg. Braf iawn oedd cael croesawu newyddion y BBC i Gilfach er mwyn cyhoeddi agoriad swyddogol yr adnodd cyffrous hwn.**

*We as a school are very proud to announce the official opening of Caerphilly's brand new Welsh Immersion Unit on our school's site. Canolfan Gwenllian will serve to immerse latecomers to Welsh education in the language, with a view to eventually integrate them fully in Welsh medium education. The resource is also a huge boost for us as a school as we will make use of it to provide intensive support for pupils needing a little support with their Welsh language development. It was a real pleasure to be able to invite the BBC news team to Gilfach in order to announce the official opening of this exciting new resource.*

## Caffi'r Cwm

**Llongyfarchiadau i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6 am gynnal Caffi'r Cwm cyntaf eleni, a oedd yn canolbwyntio ar Fasnach Deg. Paratodd y disgyblion wasanaeth i addysgu eu rhieni am Fasnach Deg a chacen banana, smwddis banana ac ysgytlaeth banana i'w rhieni eu blasu. Bu'r bore yn llwyddiant ysgubol a braf oedd cael Mr McAvoy, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Gyfun Cwm Rhymni gyda ni i gychwyn y broses bontio.**

*Congratulations to our year 5 and 6 pupils for hosting the very first of this year's Caffi'r Cwm, which focussed on Fairtrade. The pupils prepared an assembly to educate their parents about Fairtrade and prepared banana cake, banana smoothies and banana milkshake for their parents to taste. The morning was a huge success and it was great to have Mr McAvoy, Assistant Headteacher of Ysgol Gyfun Cwm Rhymni with us to start the transition process.*



# Y Siarter Iaith

## Diolch a'r Wobr Ôl Aur/'Diolch' and the Post-Gold Award

**Yn gyntaf, hoffwn ddiolch i bawb oedd ynghlwm gyda llwyddiant y wobr aur yn yr haf. O'r staff, llywodraethwyr, rhieni, gwarchodwyr, y gymuned leol ac yn bwysicaf oll - y plant! Roedd yn brofiad heb ei ail i dderbyn y wobr aur, yn dilyn blwyddyn prysur iawn. Mae'r wobr nawr yn perthyn i bawb o deulu'r ysgol ac yn gydnabyddiaeth haeddiannol o'ch cefnogaeth barhaus. Nawr, mae'r ysgol yn anelu at y Wobr Ôl Aur, yn unol â'r Fframwaith Cenedlaethol Siarter Iaith. Dyma gynllun i sicrhau ein bod yn cynnal safonau uchel ein gwaith gwobr aur wrth wireddu a datblygu targedau pellach. Mi fydd y targedau newydd yn cael eu rhannu mewn da bryd ond ein swydd nawr yw cynnal ein gwaith yn yr ysgol a'r gymuned leol. Ymlaen at y garreg filltir nesaf!**

*Firstly, I'd like to thank everyone who was involved in securing the gold award for our school. From the staff, governing body, parents, carers, the local community and most importantly - our fantastic children! It was an unforgettable experience to receive the gold award, and it was a day that really showcased our school at its best. The award now belongs to the school family and is a testament to your continued support.*

*Now, the school is aiming for the Post-Gold Award, which will be a slightly different process to the gold. This award is to ensure that we uphold our gold standard by working on our current efforts as well as developing new and innovative ways of working with new and exciting initiatives. Our targets will be shared with you by Christmas, but for now we will endeavour to maintain our hard work both in school and in the wider community. On to the next milestone!*

*Diolch yn fawr iawn,*

*Mrs Sellick*

## Y Gornel Ddysgu / The Learning Corner

| | | |
|---|---|---|
| Hello! | - | Shwmae! |
| Good morning | - | Bore da |
| Good afternoon | - | Prynhawn da |
| Good evening | - | Noswaith dda |
| Good night | - | Nos da |
| How are you? | - | Sut wyt ti? |
| May I have...? | - | Ga i...? |



### Ein Pigion Cerddorol / Our Musical Playlist

Bytholwyrdd (Tecwyn Ifan)
Eira (Swnami)
Disgyn Amdanat ti (Sibrydion)
Can yn ofer (Edward H Dafis)

### Ap y mis

Duolingo

Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Her Seren a Sbarc

Dyma **'Her Seren a Sbarc'** mis **Hydref**. Cofiwch i drydaru eich ymdrechion ar Trydar a chynnwys @yggf123 gyda'r hashnod #siarteriaithyggf

*Here is the '**Her Seren a Sbarc (Seren & Sbarc Challenge)** for the month of **Hydref (October)**. Please remember to tag us on Twitter in your efforts, please tag @yggf123 and use the hashtag #siarteriaithyggf*


**Gwyliwch 'Boom'**
Watch 'Boom'





**Gofynnwch "Pa ddiwrnod yw hi??"** Ask your friend 'Pa ddiwrnod yw hi?




**Canwch gân "Dawns y Dail"**
Sing along to "Dawns y Dail"





**Dawnsiwch i gân "Eira" gan Sŵnami**
Dance along to "Eira " by Sŵnami





**Chwaraewch gêm "Creu gyda Cyw" ar Cyw**
Play the "Creu Gyda Cyw' game on Cyw




**Ewch am dro i ffeindio pethau brown/** *Go for a walk to find brown things*





Cenedl Heb Iaith – Cenedl Heb Galon

# Newyddion Dosbarth
# Class News

## <u>Dosbarth Branwen</u>

*Meithrin/Derbyn / Nursery/Reception*

**Y tymor yma, rydyn ni wedi bod yn dysgu am lawer o bethau newydd yn cynnwys ein lliwiau.  Rydyn ni wedi cynnal diwrnod lliw pob dydd Mercher trwy gwisgo i fyny a bwyta bwydydd lliw yr wythnos. Rydyn ni hefyd wedi bod yn chwilio am lythrennau mewn sbageti, lle roedd pawb wedi mwynhau rhoi eu dwylo mewn!**

*This term we have been learning lots of new things including our colours.  We have been holding a colour day every Wednesday and wearing clothes and eating food of the colour of the week.  We have also been looking for letters in spaghetti, where everyone enjoyed putting their hands in!*







## <u>Dosbarth Dwynwen</u>

*Blwyddyn 1/2 / Year 1/2*

**Mae dosbarth Dwynwen wedi bod yn brysur pob dydd Mercher yn ystod ein sesiwn 'Mercher Mentrus'. Rydyn ni wedi bod yn cerdded lawr i fasn Gilfach a gwneud gweithgareddau megis creu coron naturiol, creu fframiau, sylwi ar liwiau'r Hydref a hyd yn oed sylwi ar batrymau yn y mwd!**

*Dosbarth Dwynwen have been busy every Wednesday on their new adventure 'Mercher Mentrus' (Adventure Wednesday). We've been donning our wellies and waterproofs and walking down to Gilfach basin. During the sessions we've made nature crowns, made a picture frame out of twigs, looked at the different colours around us and even looked at patterns in the mud!*

# Newyddion Dosbarth
# Class News

## Dosbarth Gelert
*Blwyddyn 3/4 / Year 3/4*

**Rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn Nosbarth Gelert yr hanner tymor yma. Rydyn ni wedi bod yn astudio 'Newidiadau' gyda'r ffocws ar waith gwyddoniaeth. Rydyn ni wedi labelu organau'r corff, ymchwilio i'r sgerbwd, a mesur a chymharu maint penglogau. Yn ogystal â hyn, rydyn ni wedi astudio'r corff ac wedi ysgrifennu esboniad gwyddonol ar Y System Dreulio. Ein huchafbwynt oedd ein trip i Techniquest!**

*We have been extremely busy in Dosbarth Gelert this half term, studying the topic 'Changes', with a focus on science. We have labelled organs in the body, researched the skeleton, as well as measuring and comparing skull sizes. In addition to this we have studied the body and have written a scientific explanation on The Digestive System. Our class highlight was the fantastic trip to Techniquest!*




## Dosbarth Bendigeidfran
*Blwyddyn 5/6 / Year 5/6*



**Mae hanner tymor cyntaf y flwyddyn academaidd wedi bod yn hynod o brysur i ni yn Nosbarth Bendigeidfran. Rydym wedi astudio'r cysyniad o 'newidiadau' ac wedi mwynhau gwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg, gan gynnwys dyrannu calon. Roedd rhai uchafbwyntiau eraill yn cynnwys ein taith i Fae Caerdydd ar gyfer sioe 'Corff Dynol' yn Techniquest, a chynnal Caffi'r Cwm cyntaf eleni i'n rhieni ac i Mr McAvoy, Pennaeth Cynorthwyol Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.**

*This first half term of the academic year has been extremely busy for us in Dosbarth Bendigeidfran. We've studied the concept of 'changes' and enjoyed Science and Technology work, including dissecting a heart. Some other highlights included our trip to Cardiff Bay for a 'Human Body' show in Techniquest, and hosting this year's first Caffi'r Cwm for our parents and for Mr McAvoy, Assistant Headteacher at Ysgol Gyfun Cwm Rhymni.*

# Dyddiadau Pwysig
# Important Dates

| Dyddiad / Date | Digwyddiad / Event |
|---|---|
| 6/11/23 | **Imiwneiddiadau Ffliw**<br>**(Mae hwn yn bwysig iawn ar gyfer iechyd cyhoeddus - gweler y deunydd wedi'i atodi ar y tudalennau nesaf.)**<br>*Flu Immunisations*<br>*(This is very important for public health - see material attached on the next pages.)* |
| 8/11/23- 9/11/23 | **Nosweithiau Rhieni**<br>*Parents Evenings* |
| 13/11/23 | **Wythnos Gwrth-fwlio**<br>*Anti-bullying Week* |
| 16/11/23 | **Cystadleuaeth Rygbi Tag yr Urdd**<br>*Urdd Tag Rugby Tournament* |
| 17/11/23 | **Plant Mewn Angen**<br>**(Pawb i wisgo pyjamas i'r ysgol a chyfrannu £1 tuag at yr achos.)**<br>*Children in Need*<br>*(Everyone to wear pajamas to school and contribute £1 to the cause.)* |
| 20/11/23 | **Ymweliad Bardd Plant Cymru**<br>*Children's Laureate for Wales Visit* |
| 23/11/23 | **Cystadleuaeth pêl-rwyd**<br>*Netball tournament* |
| 30/11/23 | **Noson Ffilm Nadolig**<br>*Christmas Film Night* |
| 6/12/23 | **Cinio Nadolig (Diwrnod Siwmperi Nadolig)**<br>*Christmas Dinner (Christmas Jumper Day)* |
| 9/12/23 | **Ffair Bwyd a Chrefft y Gaeaf Bargoed (Côr yr Ysgol)**<br>*Bargoed Winter Food & Craft Fair (School Choir)* |
| 12/12/23 | **Cyngerdd Nadolig (Dosbarth Branwen & Dwynwen)**<br>Christmas Concert (Dosbarth Branwen & Dwynwen) |
| 14/12/23 | **Cyngerdd Nadolig (Dosbarth Gelert & Bendigeidfran)**<br>Christmas Concert (Dosbarth Gelert & Bendigeidfran) |
| 20/12/23 | **Sioe Nadolig Do Re Mi**<br>Do Re Mi Christmas Show |
| 21/12/23 | **Brecwast gyda Siôn Corn**<br>Breakfast with Santa |

# CRhA yr Ysgol / The School PTA

## Digwyddiadau

- **Ar Ddydd Iau, 16eg o Dachwedd byddwn yn cynnal ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymdeithas Rhieni ac Athrawon. Bydd hyn am 3.30pm yn neuadd yr ysgol, ac mae croeso i bawb fynychu. Rydym bob amser yn chwilio am rieni a gwarcheidwaid cefnogol i ymuno â'n tîm CRhA ac i helpu gyda chodi arian a chynnal digwyddiadau ysgol. Fel arfer cynhelir cyfarfodydd bob mis yn syth ar ôl ysgol.**
- **Ar ddydd Iau, 19eg o Hydref cynhaliwyd Parti Pwmpen i'r plant. Cawsant i gyd amser anhygoel yn dawnsio, yn gwisgo i fyny ac yn mwynhau'r bwffe.**
- **Hoffai'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon ddiolch i Morrisons ym Margod am eu rhoddion caredig i'n digwyddiadau codi arian.**
- **Byddwn yn cynnal Raffl Nadolig yn nes at ddiwedd y tymor. Diolchwn ymlaen llaw am unrhyw roddion o wobrau.**

## *Events*

- *On Thursday, 16th November we will be holding our PTA AGM. This will be at 3.30pm in the school hall, and all are welcome to attend. We are always looking for supportive parents and guardians to join our PTA team and to help out with fundraising and school events. Meetings are usually held monthly straight after school.*
- *On Thursday, 19th October we held a Parti Pwmpen for the children. They all had an amazing time dancing, dressing up and enjoying the buffet.*
- *The PTA would like to thank Morrisons in Bargoed for their kind donations to our fundraising events.*
- *We will be holding a Christmas Raffle nearer the end of term. Any donations of prizes would be very much appreciated.*

## I'r Dyddiadur

- **Yn lle ffair Nadolig eleni, byddwn yn cynnal Noson Ffilm Nadoligaidd. Bydd hyn ar dydd Iau, 30ain o Dachwedd a'r gost fydd £3 y plentyn. Byddant yn gwylio ffilm Nadoligaidd, yn cael ci poeth, byrbrydau a diod. Yn ogystal â hynny, byddant yn derbyn tocyn raffl, gyda'r raffl i'w dynnu ar y noson. Bydd yr enillydd yn derbyn hamper noson ffilm deuluol.**
- **Cynhelir Brecwast Gyda Siôn Corn ddydd Iau, 21ain o Ragfyr.**

## *For the Diary*

- *Instead of a Christmas fayre this year, we will be holding a Festive Movie Night. This will be on Thursday, 30th November and the cost will be £3 per child. They will watch a festive film, and will have a hot dog, snacks and a drink. As well as this, they will receive a raffle ticket, with the raffle to be drawn on the night. The winner will receive a family movie night hamper.*
- *Breakfast With Santa will take place on Thursday, 21st December.*




# Cadwch Fi'n Saff
# Cadwch Fi'n Iach

## Cwblhewch E-Ganiatad Ffliw Eich Plentyn

bit.ly/schoolflu23



School Nursing Service
Gwasanaeth Nyrsio Ysgol

Looked After Children
Plant Sy'n Derbyn Gofal

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives




# Keep Me Safe

## Keep Me Well

### Complete Your Child's Flu E-Consent



bit.ly/schoolflu23

School Nursing Service
Gwasanaeth Nyrsio Ysgol

Looked After Children
Plant Sy'n Derbyn Gofal

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives